SKACB7

Torri gwallt yn greadigol trwy ddefnyddio cyfuniad o dechnegau barbro

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio sgiliau torri uwchraddol i greu steil newydd personoledig ac unigol sy'n gwella'r ddelwedd bersonol.

I gyflawni'r safon hon, bydd angen i chi gynnal lefel uchel o iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu da.

Dyma brif ganlyniadau'r safon hon:

1.
cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth dorri gwallt
2.
ailsteilio gwallt yn greadigol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth dorri gwallt**

1.
cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2.
paratoi eich cleient yn unol â gofynion y salon
3.
gwarchod dillad eich cleient trwy gydol y gwasanaeth
4.
sicrhau nad oes gormod o doriadau gwallt yn mynd ar groen eich cleient yn ystod y gwasanaeth
5.
gosod eich cleient yn unol â gofynion y gwasanaeth heb achosi unrhyw anghysur iddo
6.
sicrhau bod eich ystum a'ch osgo eich hun wrth weithio yn achosi cyn lleied o flinder a risg o anaf â phosibl
7.
cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus trwy gydol y gwasanaeth
8.
defnyddio dulliau gweithio sy'n:

8.1 lleihau'r risg o ddifrod i **offer a chyfarpar**

8.2 sicrhau bod menig yn cael eu gwisgo wrth ddefnyddio raseli

8.3 lleihau'r risg o groes-heintiad

8.4 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio

8.5 sicrhau bod adnoddau glân yn cael eu defnyddio

8.6 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac i eraill

8.7 hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

1.

sicrhau bod eich hylendid, diogelwch ac ymddangosiad personol yn bodloni gofynion safonol y diwydiant a'r sefydliad

2.

dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o offer, defnyddiau a chynhyrchion

3.

cael gwared ar ddefnyddiau gwastraff ac offer miniog

4.

cwblhau'r gwasanaeth torri mewn amser sy'n fasnachol ymarferol

**Ailsteilio gwallt yn greadigol**

*

*

1.

sefydlu **ffactorau** a all ddylanwadu ar y gwasanaeth cyn torri

2.

archwilio'r amrywiaeth o weddau gyda'ch cleient gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol

3.

argymell gwedd sy'n addas ar gyfer eich cleient

4.

seilio'ch argymhellion ar werthusiad cywir o **wallt** eich cleient a'i botensial ar gyfer cyflawni'r wedd ofynnol

5.

paratoi **gwallt** eich cleient cyn torri

6.

cadarnhau gyda'ch cleient, cyn dechrau torri, y wedd y cytunwyd arni yn y drafodaeth

7.

sefydlu a dilyn canllawiau torri addas er mwyn cyflawni'r wedd ofynnol

8.

personoli'ch **technegau ac effeithiau** torri ***i ystyried* *ffactorau** a fydd yn dylanwadu ar y wedd a ddymunir

9.

cyfuno ac addasu'ch **technegau ac effeithiau** torri mewn ffordd arloesol i gyflawni'r wedd a ddymunir

10.
newid eich osgo chi ac osgo'ch cleient er mwyn eich helpu i sicrhau cywirdeb y toriad
11.
croeswirio'r toriad er mwyn sicrhau bod dosbarthiad y pwysau, y cydbwysedd a'r siâp yn gywir
12.
cyfuno gwallt y cleient â gwallt ychwanegol pan fo angen
13.
creu siapiau amlinellol sy'n gywir a chael gwared ar wallt dieisiau y tu allan i'r siâp amlinellol a ddymunir
14.
creu **siapiau gwddf** sy'n gywir ac sy'n ystyried llinell naturiol y gwallt
15.
cydbwyso a siapio cernflew i fodloni gofynion y cleient
16.
trafod â'ch cleient yn ystod y gwasanaeth torri er mwyn cadarnhau'r wedd a ddymunir
17.
gweithredu i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod y gwasanaeth torri
18.
gwneud archwiliad gweledol terfynol i wirio cywirdeb y toriad a'r amlinellau gorffenedig
19.
defnyddio **technegau gorffennu creadigol** sy'n cyd-fynd yn dda â'r toriad
20.
sicrhau bod gwedd orffenedig y steil newydd yn cyd-fynd yn dda â phryd a gwedd y cleient ac yn gwella'i ddelwedd bersonol a delwedd y salon
21.
cadarnhau bod eich cleient yn fodlon ar y wedd orffenedig
22.
rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth dorri gwallt**

1.
eich cyfrifoldebau am **iechyd a diogelwch** fel y cânt eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swydd
2.
gofynion eich salon ar gyfer paratoi'r cleient
3.
yr amrywiaeth o gyfarpar gwarchod a ddylai fod ar gael ar gyfer cleientiaid
4.
pam y mae'n bwysig gwarchod cleientiaid rhag toriadau gwallt
5.
sut y gall osgo'ch cleient a chithau effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6.
pam y mae'n bwysig cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus
7.
yr ystyriaethau diogelwch y mae'n rhaid talu sylw iddynt wrth dorri gwallt
8.
sut i ddefnyddio a chynnal a chadw offer torri yn gywir
9.
y dulliau o lanhau, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir mewn salonau
10.
pam y mae'n bwysig gwisgo menig wrth ddefnyddio rasel
11.
y dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a chroes-heigiad
12.
pam y mae'n bwysig osgoi croes-heintiad a chroes-heigiad
13.
y mathau gwahanol o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
14.
y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y

mae'n rhaid i chi eu dilyn

15.

pwysigrwydd hylendid, diogelwch ac ymddangosiad personol i gynnal **iechyd a diogelwch** yn eich gweithle

16.

cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr y mae'n rhaid i chi eu dilyn er mwyn defnyddio cyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

17.

sut i ddefnyddio'r holl offer a chyfarpar yn ddiogel

18.

sut i lefelu a phrofi clipwyr

19.

y dulliau cywir o gael gwared ar wastraff

20.

amserau gwasanaeth disgwyliedig eich salon ar gyfer toriadau gwallt gwahanol

**

Ailsteilio gwallt yn greadigol**

1.

y **ffactorau** y mae'n rhaid eu hystyried cyn ac yn ystod torri a sut y gall y rhain effeithio ar y gwasanaeth torri

2.

y ffactorau y dylid eu hystyried wrth dorri gwallt gwlyb a sych

3.

faint y mae gwallt yn tyfu ar gyfartaledd

4.

pwysigrwydd archwilio a chadarnhau'r gweddau gyda'r cleient trwy ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol

5.

y risg posibl o wallt yn tyfu i'r byw o ganlyniad i dorri gwallt cyrliog yn agos yn rheolaidd

6.

achosion hysbys patrymau moelni dynion

7.

patrymau moelni dynion nodweddiadol

8.

pam y dylai cynhyrchion gwallt gael eu codi o'r gwallt cyn ei dorri

9.

yr amrywiaeth o siapiau gwallt traddodiadol a chyfredol sydd ar gael i ddynion

10.

sut a phryd i ddefnyddio **technegau** ac effeithiau torri gwahanol

11.

pa offer y gellir eu defnyddio ar wallt gwlyb neu sych neu'r ddau

12.

y rhesymau dros sefydlu a dilyn canllawiau

13.

sut i greu a dilyn canllawiau ar gyfer toriadau gwahanol

14.

sut i bersonoli ac addasu **technegau** torri

15.

yr effeithiau y gellir eu creu trwy gyfuno ac addasu technegau torri gwahanol

16.

pwysigrwydd croeswirio'r toriad

17.

pwysigrwydd ystyried dosbarthiad y pwysau a gweithio gyda phatrymau tyfu naturiol y gwallt

18.

sut y bydd onglau torri gwahanol yn effeithio ar ddosbarthiad y pwysau, y cydbwysedd a graddau'r graddoli

19.

pwysigrwydd defnyddio'r tensiwn cywir ar y gwallt wrth dorri

20.

pwysigrwydd torri i linell naturiol y gwallt wrth farbro

**41.** **technegau** i gael gwared ar wallt dieisiau y tu allan i'r siâp gwddf a ddymunir

1.

yr amgylchiadau lle efallai y byddech yn torri i mewn i linell naturiol y gwallt

2.

y mathau o glipwyr, llafnau clipwyr ac ategolion a'r effeithiau y mae'r rhain yn eu cyflawni

3.

y mathau o gynhyrchion sydd ar gael ar gyfer gorffennu gwallt dynion

4.

y mathau o broblemau sy'n gallu codi fel arfer wrth dorri gwallt dynion a ffyrdd y gellir eu cywiro, os yn bosibl

5.

pwysigrwydd darparu **cyngor ac argymhellion** ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir yn y salon

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**1. Offer a chyfarpar**

1.1 sisyrnau

1.2 clipwyr

1.3 trimwyr

1.4 raseli

**2. Ffactorau**

2.1 nodweddion gwallt

2.2 y dosbarthiadau o walltiau

2.3 siâp y pen a'r wyneb

2.4 presenoldeb patrymau moelni dynion

2.5 presenoldeb gwallt wedi'i ychwanegu

2.6 tyllau cosmetig

2.7 cyflyrau croen anffafriol

**3. Gwallt**

3.1 gwlyb

3.2 sych

**4. Technegau**

4.1 toriad clwb

4.2 siswrn dros grib

4.3 clipiwr dros grib

4.4 teneuo

4.5 gweadu

4.6 llawrydd

4.7 torri â rasel

4.8 tapro

4.9 graddoli

4.10 haenu

4.11 pylu

4.12 datgysylltu

**5. Siapiau gwddf**

5.1 taprog

5.2 sgwâr

5.3 gwddf llawn

5.4 pylu at y croen

**6. Technegau gorffennu creadigol**

*

*

6.1 steilio

6.2 rhoi'r cynnyrch

*

*

**7. Cyngor ac argymhellion**

*
*

7.1 sut i gynnal y wedd

7.2 yr ysbaid rhwng gwasanaethau

7.3 cynhyrchion ychwanegol

7.4 gwasanaethau ychwanegol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

### 1. Iechyd a diogelwch

eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y cânt eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swydd

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.2 Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw

1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

### 2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

y mathau gwahanol o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

2.1 lleihau a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)

2.2 lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)

2.3 lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill

2.4 atal llygredd

2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tywelion sy'n sychu'n hawdd)

2.6 defnyddio dodrefn wedi'i ailgylchu, ecogyfeillgar

2.7 defnyddio paent heb lawer o gemegion ynddo

2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a di-alergedd

2.9 defnyddio lliwyddion gwallt heb fawr ddim amonia ynddynt

2.10 defnyddio defnyddiau pacio cyfeillgar i'r amgylchedd

2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

2.12 annog defnyddio llai o garbon wrth deithio i'r gwaith

**3. Ffactorau**

y ffactorau gwahanol y mae'n rhaid eu hystyried cyn ac yn ystod torri, a sut y gall y rhain effeithio ar y gwasanaeth torri **

3.1 y dosbarthiadau o walltiau

3.2 nodweddion gwallt

3.3 siâp y pen a'r wyneb

3.4 presenoldeb patrymau moelni dynion

3.5 presenoldeb gwallt wedi'i ychwanegu

3.6 tyllau cosmetig

3.7 cyflyrau croen anffafriol

**4. Technegau**

sut a phryd i ddefnyddio **technegau** torri gwahanol **

4.1 toriad clwb

4.2 siswrn dros grib

4.3 clipiwr dros grib

4.4 teneuo

4.5 gweadu

4.6 llawrydd

4.7 torri â rasel

4.8 tapro

4.9 graddoli

4.10 haenu

4.11 pylu

4.12 datgysylltu

**5. Cyngor ac argymhellion**

*
 *

5.1 gwasanaethau ychwanegol

5.2 cynhyrchion ychwanegol

## Gwerthoedd

1. Mae'r **gwerthoedd allweddol** canlynol wrth wraidd darparu gwasanaethau yn y sector gwallt a barbro:

1.1 parodrwydd i ddysgu

1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol

1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant

1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion safonol y diwydiant a'r sefydliad

1.5 agwedd hyblyg at waith

1.6 gweithiwr tîm

1.7 cynnal gofal cwsmeriaid

1.8 agwedd gadarnhaol

1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol

1.10 y gallu i hunanreoli

1.11 sgiliau creadigol

1.12 sgiliau cyfathrebu llafar a dieiriau rhagorol

1.13 cynnal dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel

1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion

1.15 sgiliau arwain

## Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol wrth wraidd darparu gwasanaethau yn y sector gwallt a barbro. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn:

1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon

1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar

1.3 cyfathrebu â'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddo deimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu

1.4 nodi a chadarnhau disgwyliadau'r cleient

1.5 trin y cleient yn foneddigaidd ac yn gymwynasgar bob amser

1.6 rhoi gwybodaeth a sicrwydd cyson i'r cleient

1.7 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiadau gwahanol gan gleientiaid

1.8 ymateb yn ddi-oed i gleient sy'n holi am gymorth

1.9 dewis y ffordd fwyaf addas o gyfathrebu â'r cleient

1.10 gwirio gyda'r cleient eich bod wedi deall ei ddisgwyliadau'n llwyr

1.11 ymateb yn ddi-oed ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient

1.12 caniatáu amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi eglurhad ychwanegol pan fo'n addas

1.13 bod yn gyflym wrth ddod o hyd i wybodaeth a fydd o gymorth i'r cleient

1.14 rhoi i'r cleient yr wybodaeth y mae arno ei hangen ynglŷn â'r gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

1.15 bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth a allai fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio ei fod wedi'i deall yn iawn

1.16 os bydd unrhyw resymau pam na ellir bodloni gofynion neu ddisgwyliadau'r cleient, dylid eu hesbonio'n glir wrtho

## Geirfa

**1. Y dosbarthiadau o walltiau** (canllaw yn unig yw hwn)

Math 1 – Gwallt syth

1.1 Main/Tenau – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn feddal iawn, yn sgleiniog ac yn olewog, a gall fod yn anodd cynnal cyrlen ynddo.

1.2 Canolig – mae gan y gwallt lawer o gyfaint.

1.3 Bras – mae'r gwallt fel arfer yn hynod o syth ac mae'n anodd rhoi cyrls ynddo.

Math 2 – Gwallt tonnog

2.1 Main/Tenau – mae yna batrwm "S" pendant i'r gwallt. Gellir ei steilio mewn sawl ffordd fel arfer.

2.1 Canolig – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn grychlyd ac yn anodd ei steilio.

2.2 Bras – mae hwn hefyd yn wallt sy'n anodd ei steilio ac fel arfer yn grychlyd iawn; mae'r tonnau'n tueddu i fod yn fwy trwchus.

Math 3 – Gwallt cyrliog

3.1 Cyrls rhydd – mae gweadedd y gwallt yn gyfuniad o fathau gwahanol. Gall fod yn drwchus gyda llawer o gyfaint a phatrwm "S" pendant. Mae hefyd yn tueddu i fod yn grychlyd.

3.2 Cyrls tyn – mae gweadedd hwn hefyd yn gyfuniad o fathau gwahanol o walltiau, ac mae iddo swm cymedrol o gyrls.

Math 4 – Gwallt cyrliog iawn

4.1 Meddal – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn fregus iawn, yn dorchau tyn, ac mae iddo batrwm cyrliog mwy pendant.

4.2 Gwrychog – mae hwn hefyd yn fregus iawn ac yn dorchau tyn; fodd bynnag, nid yw'r patrwm cyrliog mor bendant – mae'n debycach i siâp patrwm "Z".

1. Mae **nodweddion gwallt** yn cynnwys y canlynol:

2.1 trwch y gwallt

2.2 gweadedd y gwallt

2.3 elastigedd y gwallt

2.4 mandylledd y gwallt

2.5 cyflwr y gwallt

2.6 patrymau tyfu gwallt

### 3. Trimwyr

3.1 clipwyr bach gyda llafnau llai i greu toriad agosach, mannach sydd â mwy o ddiffiniad a manylion

*

*

1. Boston yw'r enw ar **wddf sgwâr**

SKACB7

# Torri gwallt yn greadigol trwy ddefnyddio cyfuniad o dechnegau barbro

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActiv e |
| **RCU gwreiddiol** | SKAGB8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Trin gwallt, Trin gwallt a barbro |
| **Geiriau Allweddol** | Creu; torri; technegau barbro |